Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Gwyliau Byr Cymunedol Castell-nedd Port Talbot Abertawe**

**Adeilad Shaw Trust**
**Parc Busnes D'arcy**
**Llandarsi**
**Castell-nedd**
**SA10 6EJ**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/04/2023

# Gwyliau Byr Cymunedol Castell-nedd Port Talbot Abertawe

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Gweithredu dros Blant |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad yn fawr iawn, gan fod ganddynt lais cadarn. Maent yn gwneud dewisiadau cyson am yr hyn yr hoffent ei wneud a sut yr hoffent dreulio eu hamser. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau a'r staff, ac yn dangos cyffro a brwdfrydedd.

Mae'r staff yn darparu lleoliad cynnes a magwrus sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant a'u datblygiad, ac yn cynllunio'n effeithiol. Mae'r staff yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant drwy eu gwybodaeth a'u sgiliau cyfredol a'u hagweddau magwrus a gofalgar.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn amgylchedd glân a diogel â digon o le. Mae'r ardaloedd chwarae yn groesawgar ac yn gyfeillgar ac yn hygyrch i bob plentyn. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant ac mae'r staff yn nodi unrhyw risgiau diangen i'r plant ac yn eu dileu cymaint â phosibl.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth ragorol ac ymdeimlad o bwrpas sy'n cynnal gwelliannau ac yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Maent yn cydymffurfio â'r holl reoliadau ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthfawrogi'r staff ac yn rhoi cymorth effeithiol a rheolaidd iddynt, gan sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd datblygiadol rhagorol a'u bod yn cael eu goruchwylio. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau rhagorol â'r rhieni ac asiantaethau eraill sy'n canmol y lleoliad a'r staff yn fawr.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf. Gallant ddewis sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad ac maent yn hyderus wrth wneud eu penderfyniadau eu hunain. Caiff y plant eu cynnwys wrth gynllunio themâu a phynciau ar gyfer gweithgareddau, ac maent yn dewis pa fwyd yr hoffent ei fwyta. Mae'r plant yn cyfeirio eu chwarae eu hunain ac yn hyderus wrth fynegi eu hunain yng nghwmni'r staff. Maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt gan eu bod yn parchu eu dewisiadau a'u hanghenion. Er enghraifft, pan fydd y plant yn dewis eu hoff brydau yn hyderus gan ddefnyddio rhaglen cyfathrebu drwy gyfnewid lluniau, aeth y staff ati i gadarnhau eu dewisiadau drwy ddefnyddio lluniau amgen.

Mae'r plant yn setlo'n dda yn y lleoliad gan fod yr arferion yn gyfarwydd iddynt, a'u bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn hapus wrth gyrraedd y lleoliad, ac mae rhai yn cyfarch y staff a'i gilydd. Mae gan y plant gydberthnasau da â'r staff. Maent yn hyderus wrth ofyn i'r staff pan fyddant eisiau rhywbeth, gan fod y staff yn ymateb i'w ciwiau dieiriau ar unwaith. Mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn, gan symud yn hawdd ac yn hyderus rhwng y gweithgareddau. Mae'r plant yn datblygu hunanhyder yn dda ac yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd y staff yn eu canmol.

Mae plant o wahanol oedrannau yn defnyddio'r gwasanaeth ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol. Maent yn dysgu cyfarch ei gilydd wrth gyrraedd a chydnabod pan fydd ffrind arall yn dewis ymuno mewn gweithgaredd â nhw. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i ryngweithio fel grŵp. Er enghraifft, roedd rhai o'r plant yn awyddus i weld beth roedd eu ffrindiau wedi'i ddewis wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y tymor.

Mae'r plant wedi'u cymell ac yn ymgysylltu â'u chwarae am gyfnodau estynedig o amser gan fod profiadau chwarae o ansawdd da ar gael iddynt sy'n diwallu eu hanghenion. Maent yn arbennig yn mwynhau treulio amser yn yr awyr agored yn chwarae ar yr amrywiol ddarnau o gyfarpar a gyda'r swigod. Mae'r plant yn treulio cryn dipyn o amser yn yr ardal synhwyraidd ac ar y cyfarpar chwarae meddal.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu, dysgu a dod yn annibynnol. Maent yn mwynhau ymgymryd â rolau yn y lleoliad ac mae'r staff yn eu cefnogi a'u galluogi i ymgymryd â'r rolau hyn. Er enghraifft, pan oedd plentyn yn awyddus i helpu wrth dacluso'r adnoddau, rhoddodd y staff gyfrifoldeb iddo drwy roi'r allwedd iddo gloi'r sied ar ôl tacluso'r cyfarpar. Roedd y plentyn wrth ei fodd â'r rôl hon ac yn wên o glust i glust.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn brofiadol ac yn gymwysedig. Maent yn gofalu am y plant yn effeithiol drwy ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson er mwyn cadw'r plant yn ddiogel a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Maent wedi cael hyfforddiant cyfredol ar amddiffyn plant a chymorth cyntaf ac mae'r staff yn dilyn yr holl weithdrefnau ar gyfer atal a rheoli heintiau. Maent yn trafod senarios diogelu yn hyderus a chawsom sicrwydd eu bod yn cysylltu â'r asiantaethau perthnasol os byddant o'r farn bod plentyn wedi wynebu risg o niwed neu'n wynebu risg o niwed ar y pryd. Mae'r staff yn cadw cofnodion datblygiadol a chofnodion personol perthnasol am y plant ac yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau a gaiff eu rhoi. Maent yn rhannu'r cofnodion hynny â'r rhiant/gofalwr perthnasol.

Mae'r staff yn gynnes, yn gyfeillgar ac yn fodelau rôl cadarnhaol i'r plant. Maent yn parchu dulliau cyfathrebu unigol y plant ac yn eu helpu i sicrhau y gallant fynegi eu hunain. Mae gan y staff ddealltwriaeth a gwybodaeth berthnasol am ddatblygiad plant, a'i effaith ar ymddygiad plant. Maent yn deall y polisi ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith, er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant yn ymwybodol o'r disgwyliadau. Mae'r staff yn defnyddio canmoliaeth i atgyfnerthu ymddygiad da, gan rannu geiriau o gefnogaeth ac anogaeth â'r plant. Er enghraifft, "*Well done*" a "*Thank you for helping*". Maent yn defnyddio technegau tynnu sylw lle ceir ymddygiad annymunol, gan ymyrryd yn briodol ac yn ddigynnwrf pan geir achosion o wrthdaro. Weithiau, ceir anghysondeb wrth iddynt ryngweithio a allai ddrysu'r plant. Er enghraifft, roedd gwahanol aelodau o'r staff yn rhoi gwahanol gyfarwyddiadau i'r plant. Fodd bynnag, llwyddodd y staff i gydnabod hyn ar unwaith a rhoddwyd systemau newydd ar waith i'w atal rhag digwydd eto.

Mae'r staff yn addasu i anghenion unigol y plant yn hyderus er mwyn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd sy'n briodol i'w hanghenion a'u cam datblygiad. Maent yn cyfrannu syniadau er mwyn cynllunio gweithgareddau sy'n diwallu anghenion unigol y plant, gan eu bod yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu canolbwyntio ar feithrin sgiliau amrywiol pob plentyn a'u datblygu. Gwelsom y staff yn arsylwi ar sgiliau a galluoedd y plant ac yn meithrin eu dealltwriaeth unigol o syniadau a chysyniadau drwy gwestiynu priodol. Er enghraifft, gwnaethant drafod gwahanol ffyrdd o ddefnyddio darn o gyfarpar gan wneud iddo droi o amgylch yn gyflymach ac yn arafach. Mae'r staff yn galluogi'r plant i ymgymryd â gweithgareddau ac i chwarae mewn ffyrdd sy'n cynnig cyfleoedd synhwyraidd er mwyn iddynt fynegi eu teimladau a'u hemosiynau. Mae'r staff yn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth a'u sgiliau gofal personol ac mae'r cofnodion yn dangos bod canlyniadau yn cael eu rhannu'n gamau cyflawnadwy sy'n tynnu sylw at gryfderau'r plant. Mae'r staff yn adolygu'r cynlluniau personol yn unol â'r rheoliadau, a chânt eu cwblhau drwy ymgynghori â'r rhieni, y plant a gweithwyr proffesiynol allanol.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r amgylchedd yn ddiogel iawn ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae mesurau diogelwch trylwyr yn sicrhau bod trefniadau mynediad i'r lleoliad ac o'r lleoliad yn gadarn ac ni all unrhyw un ddod i mewn i'r lleoliad na'i adael heb i aelod o'r staff ganiatáu hynny. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod arferion glanhau trylwyr ar waith er mwyn cynnal arferion hylendid a dulliau rheoli heintiau da. Defnyddir rhestrau gwirio dyddiol i nodi unrhyw beryglon ar y safle, a gwelsom gofnodion o asesiadau risg ar gyfer pob rhan o'r adeilad a ddefnyddir gan y plant. Fodd bynnag, mae danadl poethion yn y cae cyfagos y mae angen ymdrin â nhw'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn eu cofnodi'n briodol. Maent yn goruchwylio'r plant yn dda ac mae'r cofnodion yn dangos bod y cymarebau bob amser yn cael eu cyflawni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn briodol ac yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch cadarn ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Mae'r safle yn gynnes ac yn gyfeillgar, gan gynnig amgylchedd croesawgar i'r plant chwarae a dysgu. Mae digon o le ac mae'r staff yn sicrhau bod y gweithgareddau a'r adnoddau yn hygyrch cyn i'r plant gyrraedd. Mae ffenestri mawr yn yr amrywiol rannau o'r prif ystafelloedd chwarae, a llawer o olau naturiol. Mae ardal gegin addas y mae'r plant yn ei defnyddio wrth baratoi eu bwyd eu hunain â chymorth gan y staff. Mae digon o doiledau y gall pob plentyn eu defnyddio. Maent o safon dda ac yn addas ar gyfer y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Gall y plant symud rhwng y gwahanol ardaloedd chwarae yn hwylus. Mae amgylchedd awyr agored ar gael iddynt hefyd sy'n cynnig cyfleoedd pellach iddynt ddysgu a chwarae, gan ar yr un pryd hyrwyddo eu llesiant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn dda. Er enghraifft, gwelsom gyfarpar a oedd yn briodol o ran camau datblygiad y plant, ac mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i'r plant y mae'r staff yn eu storio ar lefel addas fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y gall pob plentyn gael gafael ar amrywiaeth eang o adnoddau a chyfarpar priodol o ansawdd uchel er mwyn datblygu eu diddordebau a'u dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, llyfrau, gemau, jig-sos, teganau difyrru, adnoddau synhwyraidd ac offerynnau cerdd. Yn ogystal, mae ardal eistedd dawel, ystafell synhwyraidd a chyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau crefft. Mae llawer o adnoddau yn yr amgylchedd awyr agored sy'n cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau. Mae cegin fwd, cyfarpar dringo, sgwteri, blociau adeiladu mawr ac amrywiaeth o adnoddau gwneud swigod ar gael i'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu eu nodau a'u gweledigaeth â'r plant, y staff, y rhieni a'r gofalwyr, ac â gweithwyr proffesiynol eraill. Maent yn llwyddo i roi eu polisïau a'u gweithdrefnau ar waith wrth redeg y lleoliad, ac maent yn eu hadolygu ac yn eu rhannu'n rheolaidd â'r staff a'r rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn rheoli'r staff yn dda iawn a'u bod yn eu defnyddio mewn ffordd effeithiol, er mwyn bodloni'r cymarebau staffio a diwallu anghenion y plant yn llawn.

Mae'r adolygiad o ansawdd y gofal yn bwrpasol ac yn cynnig adnodd eithriadol i greu cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y staff a'r plant. Maent yn croesawu syniadau o ran sut i wella ac yn ymateb ar unwaith os bydd angen newidiadau yn y lleoliad er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr er mwyn diogelu'r plant. Maent yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd cyfredol wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, yn rhoi gweithdrefn sefydlu drylwyr ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff ac yn annog hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus i bob aelod o'r staff. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn rhagorol, ac mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, gan eu hannog i ystyried ansawdd eu gwaith a chysondeb o ran eu hymarfer. Maent hefyd yn nodi cyfleoedd hyfforddi a datblygu i bob aelod o'r staff cymwysedig, ac mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel cymorth cyntaf a diogelu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rôl a'u bod yn mwynhau bod yn rhan o dîm.

Mae systemau ar waith yn y lleoliad sy'n sicrhau dulliau cyfathrebu clir y gellir ymddiried ynddynt â'r rhieni ac asiantaethau eraill. Er enghraifft, caiff datblygiad a dewisiadau'r plant eu trafod â'r rhieni fel y bo angen ac ar ddiwedd sesiwn pan gaiff y plant eu casglu. Mae'r rhieni yn cael gwybodaeth berthnasol er mwyn iddynt wneud dewis gwybodus o ran gofal eu plentyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni yn effeithiol iawn. Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys gwybodaeth i sicrhau eu bod yn cael y gofal mwyaf priodol iddynt, gan gynnwys contractau a chaniatâd y rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod partneriaethau effeithiol yn rhoi blaenoriaeth i anghenion y plant ac y caiff gofal unigol â phwyslais penodol ei roi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 9 - Ymddygiad | Sicrhau bod y staff yn rheoli ymddygiad mewn ffordd gyson er mwyn i'r plant fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| **Argymhelliad/argymhellion** |
| Sicrhau yr ymdrinnir â'r danadl poethion yn rheolaidd i'w hatal rhag tyfu i mewn i'r amgylchedd awyr agored a pheri risg i'r plant. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/06/2023